



Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

1. Diben y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yw nodi'r fframwaith i gefnogi'r berthynas waith rhwng Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC), y cyfeirir ato ar y cyd fel "y partïon" drwy gydol y ddogfen hon.
2. Sefydlwyd GCC o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Daeth i fodolaeth ar 3 Ebrill 2017, gan ddisodli Cyngor Gofal Cymru. Mae GCC yn reoleiddiwr gofal cymdeithasol sy'n gyfrifol am weithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal cymdeithasol, myfyrwyr gwaith cymdeithasol a gweithlu'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Mae GCC yn cadw cofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer ac yn ymchwilio i bryderon am ei gofrestryddion. Mae GCC yn gosod safonau ar gyfer y gweithlu gofal a chymorth, yn datblygu'r gweithlu ac yn cefnogi'r rhai sydd angen cymorth ac yn gweithio gydag eraill i wella gwasanaethau, rhannu arfer da, pennu blaenoriaethau ymchwil a darparu gwybodaeth i'r cyhoedd a sefydliadau eraill. Mae cyfrifoldebau manwl a swyddogaethau GCC wedi'u nodi ar wefan GCC: [Amdanon ni | Gofal Cymdeithasol Cymru](#).
3. Yr NMC yw rheolydd nyrsys, bydwragedd yn y DU a chymdeithion nyrsio yn Lloegr ac fe'i sefydlwyd o dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Mae'r NMC yn cadw cofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer ac yn ymchwilio i bryderon am ei gofrestryddion. Mae'r NMC hefyd yn hyrwyddo safonau addysg a phroffesiynol uchel ar gyfer cofrestreion. Y nod yw hyrwyddo a chynnal y safonau proffesiynol uchaf mewn nyrsio a bydwreigiaeth i amddiffyn y cyhoedd ac ennyn hyder yn y proffesiynau. Mae cyfrifoldebau manwl a swyddogaethau'r NMC wedi'u nodi ar wefan yr NMC: <https://www.nmc.org.uk/about-us/our-role/>.
4. Nid yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn diystyru cyfrifoldebau a swyddogaethau GCC a'r NMC ac nid yw'n orfodadwy dan y gyfraith. Fodd bynnag, mae GCC a'r NMC wedi ymrwmo i weithio mewn ffyrdd sy'n gyson â chynnwys y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.
5. Mae'r partïon wedi penderfynu nad ydynt yn cyfnewid symiau digonol o ddata personol i warantu ymrwmo i gytundeb rhannu data ar wahân, ond bydd hyn yn cael ei adolygu'n barhaus.

Pwrpas rhannu gwybodaeth

6. Diben cyffredinol y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yw galluogi'r partïon i rannu gwybodaeth berthnasol sy'n gwella eu gallu i arfer eu swyddogaethau priodol.

7. Ni ddylid dehongli'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn fel un sy'n gosod gofyniad ar y naill barti na'r llall i ddatgelu gwybodaeth mewn amgylchiadau lle byddai gwneud hynny yn torri eu cyfrifoldebau statudol. Yn benodol, rhaid i bob parti sicrhau bod unrhyw ddatgeliad o ddata personol yn unol â'r trefniadau hyn yn cydymffurfio'n llawn â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data (DPA) 2018. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn nodi'r sail gyfreithiol bosibl ar gyfer rhannu gwybodaeth, ond mater i bob parti yw penderfynu drostynt eu hunain bod unrhyw ddatgeliad arfaethedig yn cydymffurfio â'r gyfraith.

Egwyddorion cydweithredu

8. Mae GCC a'r NMC yn bwriadu i'w perthynas waith gael ei nodweddu gan yr egwyddorion canlynol:
 - a. Yr angen i wneud penderfyniadau sy'n hybu diogelwch y cyhoedd a darpariaeth gofal cymdeithasol o ansawdd uchel.
 - b. Parch at statws annibynnol pob sefydliad.
 - c. Yr angen i gynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y ddau sefydliad a'r broses reoleiddio.
 - d. Bod yn agored a thryloyw rhwng y ddau sefydliad o ran pryd yr ystyrir a phryd nad ystyrir bod cydweithredu yn angenrheidiol neu'n briodol.
 - e. Yr angen i ddefnyddio adnoddau yn effeithiol ac yn effeithlon.

Meysydd cyfathrebu posibl

9. Yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol ar ddatgelu gwybodaeth (boed wedi'i gosod gan statud neu fel arall) ac yn ôl eu disgrisiwn bydd y ddau barti:
 - a. Cyfathrebu'n rheolaidd i drafod materion sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr (gall hyn olygu cymryd rhan mewn grwpiau amlasiantaethol i fynd i'r afael â materion cyffredin).
 - b. Ymgynghori â'ch gilydd ar unrhyw faterion a allai fod â goblygiadau sylweddol i'r sefydliad arall.
 - c. Cyfathrebu manylion tystiolaeth berthnasol llywodraethau Cymru neu'r DU mewn perthynas â gweithredu eu cyfundrefnau rheoleiddio neu arfer eu swyddogaethau.
 - d. Hysbysu ei gilydd am ganlyniad achos cyn iddo gael ei wneud yn gyhoeddus yn yr achosion hynny y mae gan y corff arall fuddiant ynddynt.
 - e. Rhannu canllawiau mewnol yn gyfrinachol a drafftio canllawiau allanol sy'n berthnasol i swyddogaethau'r ddau gorff.

- f. Bydd yr NMC a GCC yn cydweithredu'n agos â'i gilydd ynghylch yr ymchwiliadau a'r prosesau gwrandawiadau lle mae ymchwiliadau i unigolyn cofrestredig yr NMC a GCC yn cyd-daro. Byddant yn sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cynllunio fel eu bod yn gyflenwol, byddant yn hysbysu ei gilydd am ddatblygiadau, yn rhannu gwybodaeth (o fewn cyfyngiadau statudol) er mwyn lleihau'r baich ac i sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Bydd y partiön yn cymryd gofal i beidio â halogi tystiolaeth na thorri unrhyw ddyletswyddau cyfrinachedd. Bydd ymchwiliadau'n aros ar wahân ac o fewn ffiniau cyfrifoldeb sydd wedi'u diffinio'n glir.
- g. Cyfleu pryderon a gwybodaeth berthnasol i unigolyn a enwir yn y sefydliad arall fel y nodir yn 10 – 12 isod.
- h. Gall y partiön ofyn am wybodaeth gan ei gilydd a byddant yn cynnwys manylion y wybodaeth a geisir a pham y byddai'n eu cynorthwyo i gyflawni eu swyddogaethau. Gall pob un awgrymu terfyn amser rhesymol ar gyfer ymateb, gan gynnwys esboniad o unrhyw frys.

Croesgyfeirio Pryderon

- 10. Cyfleu pryderon a gwybodaeth berthnasol i unigolyn a enwir yn y sefydliad arall pan gredir eu bod yn dod o fewn cylch gorchwyl y sefydliad hwnnw. Er budd diogelwch cleifion, ni fydd y sefydliad atgyfeirio'n aros i rannu pryderon nes bod ei ymchwiliad ei hun i gŵynion yn ymwneud â chofrestryddion wedi dod i ben. Gall y wybodaeth a'r ddogfennaeth sydd i'w cyfleu gynnwys y rhai y manylir arnynt yn Atodiad 1.
- 11. Yn benodol, bydd GCC yn atgyfeirio at yr NMC:
 - 11.1 Pryderon a gwybodaeth berthnasol am weithiwr proffesiynol sydd wedi'i gofrestru â'r NMC a allai fwrw amheuaeth ar ei addasrwydd i ymarfer.
 - 11.2 Pryderon a gwybodaeth berthnasol am sefydliad gofal cymdeithasol a all fwrw amheuaeth ar ei addasrwydd fel amgylchedd dysgu ar gyfer myfyrwyr nyrsio, bydwreigiaeth neu gymdeithion nyrsio.
 - 11.3 Unrhyw bryderon a gwybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â darparu gofal yn gyffredinol gan gofrestryddion yr NMC mewn sefydliad gofal cymdeithasol a allai godi amheuaeth ynghylch arweinyddiaeth bydwreigiaeth nyrsio neu gymdeithion nyrsio.
 - 11.4 Unrhyw ymchwiliadau i risgiau a nodwyd, neu waith dilynol arnynt, lle mae pryderon am gofrestryddion NMC unigol wedi'u nodi.
- 12. Yn benodol, bydd yr NMC yn atgyfeirio at GCC:
 - 12.1 Unrhyw bryderon a gwybodaeth berthnasol am addasrwydd unigolyn cofrestredig GCC i aros ar Gofrestr Gofal Cymdeithasol Cymru;

12.2 Unrhyw wybodaeth am unigolyn sy'n honni ei fod yn weithiwr proffesiynol GCC cofrestredig lle mae gan yr NMC reswm i gredu nad yw'r person hwnnw ar y gofrestr GCC; ac

12.3 Unrhyw bryderon eraill a gwybodaeth berthnasol a allai effeithio ar y broses o reoleiddio gwaith cymdeithasol yng Nghymru.

Sail gyfreithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth

Gwybodaeth a rennir gan GCC gyda'r NMC

13. I'r graddau y bydd unrhyw wybodaeth a rennir yn cynnwys data personol, fel y'i diffinnir yn y GDPR a DPA 2018, mae GCC yn Rheolydd Data felly mae'n rhaid iddo sicrhau bod ganddo sail gyfreithiol i'w rhannu ac y byddai gwneud hynny fel arall yn cydymffurfio â egwyddorion diogelu data.
14. Sail gyfreithiol GCC ar gyfer rhannu data gyda'r NMC o dan GDPR y DU yw:
 - Rhwymedigaeth gyfreithiol (Erthygl 6(1)(c))
 - Tasg gyhoeddus (Erthygl 6(1)(e))
15. Mae adran 159 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn awdurdodi GCC i gyhoeddi neu ddatgelu i unrhyw berson wybodaeth sy'n ymwneud ag addaswydd person cofrestredig i ymarfer os yw'n credu ei bod er budd y cyhoedd i wneud hynny.
16. Pan fydd hyn yn cynnwys data categori arbennig, sail gyfreithiol GCC o dan Erthygl 9 o GDPR y DU yw Erthygl 9(2)(g).
17. Bydd GCC yn darparu gwybodaeth i'r NMC ar gais yr NMC i alluogi'r NMC i asesu addaswydd i ymarfer ei gofrestryddion, yn unol â dyletswydd statudol yr NMC o dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (y Gorchymyn). Er mwyn asesu'n briodol a yw cofrestryddion yn peri risg i'r cyhoedd, mae angen i'r NMC gael mynediad at wybodaeth benodol ac mae Erthygl 25(1) o'r Gorchymyn yn rhoi'r pŵer i'r NMC fynnu bod unrhyw berson, sydd ym marn yr NMC, yn gallu darparu gwybodaeth neu gynhyrchu unrhyw ddogfen sy'n berthnasol i'n cynorthwyo i gyflawni ei swyddogaeth addaswydd i ymarfer.
18. Gall yr NMC, o bryd i'w gilydd, gyfarwyddo cwmnïau cyfreithwyr allanol i weithredu ar eu rhan mewn materion addaswydd i ymarfer. Pan fo'r cwmni allanol yn cadarnhau'n ysgrifenedig ei fod yn gweithredu ar ran yr NMC o dan gcontract sy'n gyfreithiol rwymol, bydd GCC yn trin y cwmni allanol fel y byddai'r NMC yn ei wneud yn unol â thelerau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

Gwybodaeth a rennir gan yr NMC gyda GCC

19. Bydd yr NMC, yn ystod ei weithgareddau, yn derbyn data personol o ystod o ffynonellau. Bydd yn prosesu'r holl ddata personol o'r fath yn unol ag egwyddorion GDPR y DU, DPA 2018 a phob deddf berthnasol arall.
20. Lle mae'r NMC yn nodi bod rhaid i ddata personol y mae'n ei gadw gael eu rhannu â GCC er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau, sail gyfreithiol yr NMC ar gyfer rhannu data â GCC o dan GDPR y DU yw
 - Rhwymedigaeth gyfreithiol (Erthygl 6(1)(c))
 - Tasg gyhoeddus (Erthygl 6(1)(e))

Mae hyn wedi'i nodi yn Erthygl 3(5) o'r Gorchymyn, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r NMC gydweithredu â chyrrff fel GCC wrth arfer ei swyddogaethau yn unol â diogelu'r cyhoedd (yr amcan trosfwaol o dan Erthygl 3(4) o'r Gorchymyn).

21. Lle mae hyn yn cynnwys data categori arbennig, sail gyfreithiol yr NMC o dan Erthygl 9 o GDPR y DU yw Erthygl 9(2)(g) – rhesymau o fudd cyhoeddus sylweddol gyda sail gyfreithiol glir. Yr amod budd cyhoeddus sylweddol yw amod 6: at ddibenion statudol a llywodraethol o dan Atodlen 1 DPA 2018.
22. Er mwyn i GCC gyflawni ei swyddogaethau'n briodol ac asesu a yw cofrestryddion yn peri risg i'r cyhoedd, mae angen i GCC gael mynediad at wybodaeth benodol. Mae adran 160 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn rhoi'r pŵer i GCC i ofyn am wybodaeth, oddi wrth unrhyw berson (ac eithrio un o Weinidogion y Goron) pan fo GCC o'r farn y gall y person hwnnw gyflenwi'r wybodaeth honno neu ddangos dogfen, sy'n ymddangos yn berthnasol i gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaeth addasrwydd i ymarfer.
23. Mae gan yr NMC ddyletswydd statudol o dan 22(9) o'r Gorchymyn, 1 i gyhoeddi gorchmynion a phenderfyniadau a wneir gan ei Bwyllgorau Ymarfer Addasrwydd i Ymarfer. Mae ganddo hefyd y pŵer i rannu'r penderfyniadau hyn. Fodd bynnag, mae ganddo bŵer yn ôl disgrisiwn i atal unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag iechyd corfforol neu feddyliol person y mae'n ei hystyried yn gyfrinachol (Erthygl 22(12)). Caiff yr NMC ddatgelu i unrhyw berson unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag addasrwydd person i ymarfer y mae'n ystyried ei bod er budd y cyhoedd i'w datgelu (Erthygl 22(10)), mae hyn yn cynnwys GCC.

Ceisiadau mynediad am ddata

24. Pan fo cais am wybodaeth yn cael ei dderbyn gan y naill barti neu'r llall o dan ddeddfau diogelu data neu'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, bydd derbynnydd y cais yn ceisio barn y parti arall fel y disgrifir yn adran 45 Cod Ymarfer FOIA, lle mae'r wybodaeth a geisir o dan y cais yn cynnwys gwybodaeth a gafwyd gan, neu a rennir gan, y parti arall. Fodd bynnag, mae'r penderfyniad i ddatgelu neu gadw'r wybodaeth yn ôl (ac felly unrhyw atebolrwydd sy'n deillio o'r penderfyniad hwnnw) yn aros gyda'r parti sy'n derbyn y cais fel Rheolydd Data mewn perthynas â'r data.

25. Pan fo gwybodaeth i'w datgelu gan y naill barti neu'r llall at ddibenion gorfodi'r gyfraith o dan adran 35(4) o a5(5) o Ddeddf Diogelu Data 2018, dim ond yn unol â dogfen bolisi briodol a amlinellir yn adran 42 o DPA 2018 y byddant yn gwneud hynny.

Cyfrinachedd ac adrodd am dorri data

26. Bydd data'n cael ei drin yn unol â chanllawiau trin gwybodaeth yr NMC (Polisi canllawiau trin gwybodaeth ymarfer proffesiynol (nmc.org.uk) neu ganllawiau trin gwybodaeth FTP ftp-information-handling-guidance.pdf (nmc.org.uk). Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn trin data yn unol â'i gynllun Dosbarthu Gwybodaeth Mae gan GCC hefyd bolisi sy'n ymwneud â chyhoeddi a rhannu gwybodaeth am bersonau cofrestredig ac eraill sy'n ymwneud ag achosion Gofal Cymdeithasol Cymru [Polisi Cyhoeddi Rheoliad Gorffennaf 2022](http://gofalcymdeithasol.cymru) (gofalcymdeithasol.cymru)

27. Rhaid cytuno ar fesurau diogelwch priodol i ddiogelu trosglwyddiadau gwybodaeth yn unol â sensitifrwydd y wybodaeth ac unrhyw ddsbarthiad a ddefnyddir gan yr anfonwr.

28. Lle rhennir deunydd cyfrinachol rhwng y partiön caiff ei farcio â'r dosbarthiad diogelwch priodol.

29. Pan fydd un parti wedi cael gwybodaeth gan y llall, bydd yn ymgynghori â'r parti arall cyn trosglwyddo'r wybodaeth i drydydd parti neu ddefnyddio'r wybodaeth mewn achos.

30. Pan fo deunydd cyfrinachol a gafwyd gan, neu a rennir gan, y parti gwreiddiol yn cael ei ddatgelu'n anghywir gan y parti sy'n dal y wybodaeth, bydd y parti hwn yn dod â hyn i sylw'r parti gwreiddiol yn ddi-oed. Mae hyn yn ychwanegol at rwymedigaethau i adrodd am doriad data personol o dan y GDPR a/neu'r DPA lle mae data personol wedi'u cynnwys yn y wybodaeth a ddatgelir.

31. Bydd y partiön yn diogelu cyfrinachedd a sensitifrwydd yr holl wybodaeth reoleiddiol a chyfrinachol arall nas cyhoeddwyd a dderbynnir gan y parti arall a chynnal rheolaethau effeithiol a gynllunir i leihau'r risg o ddatgeliadau amhriodol.

Y Cyfryngau

32. Lle bo modd, bydd GCC a'r NMC yn ceisio rhoi rhybudd digonol i'w gilydd (o leiaf ddau ddiwrnod gwaith) a digon o wybodaeth am unrhyw ddatganiadau arfaethedig i'r wasg, cyhoeddiadau i'r cyhoedd a datgelu gwybodaeth mewn ymateb i unrhyw gais FOI sy'n berthnasol i neu'n debygol o effeithio ar waith y sefydliad arall.

33. Yn amodol ar eu rhwymedigaethau priodol o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, bydd GCC a'r NMC yn parchu cyfrinachedd unrhyw ddogfennau a ddatgelir gan y sefydliad arall cyn eu cyhoeddi ac ni fyddant yn gweithredu mewn unrhyw ffordd a fyddai'n achosi i gynnwys y dogfennau hynny gael ei wneud yn gyhoeddus cyn y dyddiad cyhoeddi arfaethedig.

Datrys anghytundeb

34. Dylid datrys unrhyw anghytundeb rhwng GCC a'r NMC ar lefel waith. Os nad yw hyn yn bosibl, gellir ei atgyfeirio drwy'r rhai sy'n gyfrifol am reoli'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, hyd at a chan gynnwys y prif gysylltiadau ar gyfer y ddau sefydliad a fydd wedyn yn gyfrifol ar y cyd am sicrhau datrysiad sy'n foddhaol i'r ddwy ochr.



Hyd ac adolygiad y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn

35. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn cychwyn ar ddyddiad y llofnodion isod. Nid yw wedi'i gyfyngu gan amser a bydd yn parhau i gael effaith oni bai bod angen newid yr egwyddorion a ddisgrifir neu hyd nes y byddant yn peidio â bod yn berthnasol. Bydd yr NMC a GCC yn monitro gweithrediad y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ac yn ei adolygu ar y dechrau ar ôl blwyddyn o ddyddiad y ddogfen hon ac wedi hynny o bryd i'w gilydd yn ôl yr angen.

36. Gellir adolygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar unrhyw adeg ar gais y naill barti neu'r llall. Fodd bynnag, bydd newidiadau i'r MoU yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddwy ochr gytuno'n ysgrifenedig.

37. Mae'r ddau sefydliad wedi nodi person sy'n gyfrifol am reoli'r MoU hwn (ceir y manylion cyswllt yn Atodiad 2). Byddant yn cysylltu yn ôl yr angen i sicrhau bod y MoU hwn yn cael ei gadw'n gyfredol; nodi unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg yn y berthynas waith rhwng y ddau sefydliad; a datrys unrhyw gwestiynau sy'n codi ynghylch dehongli'r MoU hwn.

Llofnodion

 Sue Evans Prif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru	 Andrea Sutcliffe Prif Weithredwr a Chofrestrydd Y Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth
Dyddiad: 8^{fed} Awst 2023	Dyddiad: 4 Awst 2023

Atodiad 1:

Engheifftiau o ddogfennau perthnasol y gellir eu rhannu rhwng yr NMC a GCC

O'r NMC i Ofal Cymdeithasol Cymru	O Ofal Cymdeithasol Cymru i'r NMC
<ul style="list-style-type: none">• Hysbysiad o atgyfeiriad i GCC lle mae gan y Person Cofrestredig gofrestriad deuol• Diweddariadau cynnydd / statws rheolaidd gan swyddogion achos yr NMC tra bod ymchwiliadau'n parhau• Hysbysiad bod yr NMC yn gwneud cais am orchymyn interim• Hysbysiad bod yr NMC yn anfon achos ymlaen i wrandawriad sylweddol• Adroddiad archwiliwr achos gan gynnwys atodiadau• Llythyr canlyniad i'r Person Cofrestredig gyda rhesymau'r Archwiliwr Achos dros ei benderfyniad.• Bwndel tystiolaeth yr NMC unwaith y bydd gwrandawriad wedi'i gynnal• Datganiadau tystion yr NMC ar ôl i wrandawriad gael ei gynnal	<ul style="list-style-type: none">• Hysbysiad o atgyfeiriad i'r NMC lle mae gan y Person Cofrestredig gofrestriad deuol• Diweddariadau cynnydd / statws rheolaidd gan swyddogion achos GCC tra bod ymchwiliadau'n parhau• Hysbysiad bod GCC yn gwneud cais am orchymyn interim• Hysbysiad bod GCC yn anfon achos ymlaen i wrandawriad sylweddol• Canlyniad gwrandawriadau gorchymyn interim (a gynhelir yn breifat)• Hysbysiad o warediadau Swyddogion• Bwndel tystiolaeth GCC unwaith y bydd gwrandawriad wedi'i gynnal• Datganiadau tystion GCC unwaith y bydd gwrandawriad wedi'i gynnal• Canlyniad a rhesymau'r panel o wrandawriadau terfynol y panel (dim ond y canlyniad a ddangosir ar y wefan)

Atodiad 2 (wedi'i olygu)

Manylion cyswllt (mewnol yn unig – nid i'w cyhoeddi)